Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Ailedrych ar Gyllid y GIG
Sesiwn Graffu Llywodraeth Cymru - 15 Gorffennaf 2019

Papur Tystiolaeth gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

CYFLWYNIAD

Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) wedi bod mewn grym bellach ers pum blwyddyn ariannol, a 2018-19 yw'r drydedd flwyddyn y mae sefydliadau'r GIG wedi bod yn adrodd yn unol â'r ddyletswydd tair blynedd. Er bod heriau ariannol sylweddol yn parhau mewn nifer fach o fyrddau iechyd, mae alldro'r GIG ar gyfer 2018-19 yn rhoi tystiolaeth o sefydlogrwydd ariannol cynyddol ar gyfer GIG Cymru, sydd hefyd wedi'i adlewyrchu yn y nifer cynyddol o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2019-20 i 2021-22 sydd wedi'u cymeradwyo. Mae hyn yn dangos bod y dull cynllunio integredig yr ydym wedi'i fabwysiadu ar gyfer GIG Cymru yn awr yn cyflawni buddion nad oedd yn cael eu cyflawni yn y fiwrocratiaeth marchnad fewnol gystadleuol flaenorol.

Rydym bellach wedi bod yn rhoi ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol tymor hir, *Cymru Iachach,* ar waith ers blwyddyn. Gyda mwy o ffocws ar ddarparu gofal iechyd yn nes at y cartref, a chadw pobl yn iach ac annibynnol am cyn hired â phosibl, rydym yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o'r broses o ddyrannu a defnyddio adnoddau yn y byrddau iechyd ac ar lefelau is, a'r canlyniadau gofal iechyd y mae'r adnoddau hyn yn eu cyflawni. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gwaith ar yr Adolygiad o Ddyraniad Adnoddau'r GIG, ochr yn ochr â'r gwaith yr ydym yn awr yn ei arwain ar ofal iechyd seiliedig ar werth.

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor ar ddatblygiad Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ers yr adolygiad diwethaf ym mis Gorffennaf 2018, yn ogystal ag adolygiad o'r sefyllfaoedd ariannol, diweddariad ar effeithlonrwydd a gwerth ac Adolygiad o Ddyraniad Adnoddau'r GIG, a thystiolaeth bellach ynglŷn â gwariant ar staff asiantaeth.

CYNLLUNIAU TYMOR CANOLIG INTEGREDIG

Newidiadau i'r Broses Gynllunio Tymor Canolig Integredig

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2019-22 ym mis Hydref 2018 ynghyd â newidiadau i'r broses o gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), sy'n adlewyrchu'r dull a nodwyd yn y cynllun *Cymru Iachach* i symleiddio ac alinio prosesau cynllunio iechyd a gofal. Roedd angen i sefydliadau'r GIG gynllunio i ddarparu yn erbyn blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru fel

Atal, Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd, Model Gofal Sylfaenol Cymru, Mynediad Prydlon i Ofal ac Iechyd Meddwl.

Proses IMTP 2019-22 oedd y cyntaf i weithredu'r dull newydd o ddatblygu cynlluniau. Yn hytrach nag adolygu yn ôl-weithredol a rhoi adborth ar gynlluniau, gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru gyfarfod sefydliadau yn rheolaidd cyn ei gyflwyno er mwyn deall eu problemau/risgiau allweddol a rhoi cymorth a chanllawiau os oedd angen.

Roedd rhan fawr o'r newid agwedd hwn yn ymwneud â'r gofyniad i sefydliadau gyflwyno cynlluniau terfynol a chytbwys a gymeradwywyd gan y Bwrdd/Cydbwyllgor erbyn 31 Ionawr 2019 fan bellaf. Er nad yw'n statudol, roedd rhaid i sefydliadau sy'n cefnogi'r GIG hefyd gyflwyno IMTP tair blynedd cyflawn a chytbwys ym mis Ionawr.

Sail Resymegol dros Ymgysylltu yn Gynnar

I gefnogi sefydliadau drwy gydol y broses gynllunio, dechreuodd Llywodraeth Cymru gynnal cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu ym mis Hydref 2018, gan gyfarfod byrddau iechyd, ymddiriedolaethau iechyd, a sefydliadau sy'n cefnogi'r GIG yn fisol (cynhaliwyd dros 60 o gyfarfodydd). Roedd hyn yn cynnwys cyngor ac adborth cynnar gan arbenigwyr polisi i gytuno ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, a nodi a deall risgiau allweddol a chamau lliniaru. Mae'r dull hwn wedi'i groesawu gan bartneriaid y GIG.

Mae adolygiad o'r broses gynllunio wedi dechrau, ond mae arsylwadau cynnar wedi nodi rhai meysydd i'w cryfhau ymhellach:

- Mae angen sicrhau gwell aeddfedrwydd yn y trefniadau comisiynu i wella prydlondeb penderfyniadau a wneir ar y cyd;
- Er bod cynnydd da wedi'i wneud i symud i ffwrdd o ddefnyddio IMTP fel dogfennau negodi, bu amrywiaeth mewn ymddygiad gyda'r dull hwn, ac mae angen gwneud gwaith pellach.

Y Rhaglen Ddysgu

Ysgol Fusnes Caerdydd sy'n cynnal un o brif bileri'r Rhaglen a'r Diploma Ôl-radd mewn Cynllunio Gofal Iechyd, a lansiwyd pecyn recriwtio yn nechrau mis Mehefin. Bydd yr ymarfer recriwtio yn cael ei gynnal gan y Cyfarwyddwyr Cynllunio yn eu sefydliadau unigol, gyda'r disgwyliad y bydd 25 myfyriwr yn cael eu dewis a'u noddi i gymryd rhan yn y garfan gyntaf.

Bydd y cwrs yn dechrau gyda sesiwn gynefino ym mis Hydref 2019, a bydd pob Diploma yn gwrs 18 mis. Bydd y cyrsiau yn gorgyffwrdd, a bydd yr ail Ddiploma yn dechrau yn nhymor yr hydref 2020.

Mae pileri eraill y Rhaglen Ddysgu Cynllunio yn cynnwys:

- dau ddigwyddiad dysgu chwe misol. Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu Haf 2019 ar 6 Mehefin. Cafodd hwn ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan dan y testun Trawsnewid, gan fanteisio ar arbenigedd cydweithwyr o Canterbury, Seland Newydd, ynglŷn â sut y gwnaethant ddatblygu system iechyd a gofal cymdeithasol integredig;

- mae gweithdai ar y galw a'r gallu yn cael eu cynllunio ar gyfer yr hydref 2019. Mae Uned Gyflawni'r GIG yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i greu cyfres o gyfleoedd i wella'r galw a'r gallu mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol;

- dau ddosbarth meistr chwe misol - mae'r rhain yn cael eu trefnu ar gyfer hydref 2019 a gwanwyn 2020 gyda'r nod o gefnogi cymuned gynllunio integredig

Sefydlwyd Grŵp Llywio - mae ganddo rôl gynghori ac mae'n adrodd drwy Gyfarwyddwr Cynllunio'r Rhaglen i'r Uwch-swyddog Cyfrifol, sef Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, drwy'r Bwrdd Cynllunio yn Llywodraeth Cymru.

SEFYLLFA ARIANNOL Y GIG

Adolygu Alldro Ariannol 2018-19

Cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig i'r aelodau ar 12 Mehefin yn manylu ar alldro ariannol sefydliadau GIG Cymru yn 2018-19. Mae chwech o'r deg corff sy'n dod dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb dros gyfnod statudol drwy weithio o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod asesu tair blynedd o fis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2019. Hefyd, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n Awdurdod Iechyd Arbennig nad yw'n dod dan Ddeddf 2014, wedi mantoli'r gyllideb yn ei flwyddyn gyntaf.

Ni wnaeth pedwar o'r deg sefydliad gyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd. Felly, mae'r pedwar sefydliad hwn wedi methu â bodloni eu dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod asesu tair blynedd, ac o ganlyniad, maent wedi cael barn amodol ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer eu cyfrifon yn 2018-19.

Er mwyn cynnal disgyblaeth ariannol, ac i sicrhau bod modd rheoli'r diffygion o fewn cyfanswm cyffredinol y gyllideb iechyd, gosododd Llywodraeth Cymru symiau fel uchafswm ar gyfer y diffyg a ganiateir yn 2018-19. Mae'r cyfanswm rheolaeth a'r alldro terfynol wedi'u nodi yn y tabl isod.

Bwrdd Iechyd	Cyfanswm Uchafswm Diffyg £m	Diffyg Alldro Terfynol £m	Cyfanswm amrywiant i reolaeth Gwell / (gwaeth) £m
Abertawe Bro Morgannwg	10.0	9.9	0.1
Betsi Cadwaladr	35.0	41.3	(6.3)
Caerdydd a'r Fro	9.9	9.9	0.0
Hywel Dda	35.6	35.4	0.2

Yn gyffredinol, mae alldro 2018-19 yn cynrychioli gwelliant o £71 miliwn yn sefyllfa ariannol GIG Cymru o'i gymharu â 2017-18, gyda thri o'r pedwar sefydliad sydd mewn diffyg ariannol yn cyflawni gwell alldro ac yn diwallu eu cyfansymiau rheolaeth ariannol.

Mae diffyg net y GIG yn 2018-19 wedi'i reoli o fewn y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyffredinol. Yn amodol ar archwiliad, disgwylir i gyfrifon adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 ddangos ychydig o arian dros ben yn y cyllidebau refeniw iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cadw at y gyllideb gyffredinol, yn ogystal â chanolbwyntio ar sefydliadau unigol yr ydym yn dymuno gweld eu disgyblaeth ariannol yn parhau i wella.

Rhagolygon Ariannol 2019-20

Rydym yn buddsoddi dros £500 miliwn o gyllid ychwanegol mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn 2019-20, gan gefnogi trawsnewidiad y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn unol â'r weledigaeth a nodwyd yn ein cynllun tymor hir, *Cymru Iachach,* yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yng nghynaliadwyedd gwasanaethau craidd y GIG. Mae'r cyllid *Cymru Iachach* yn cefnogi amryw o raglenni, gan gynnwys cynyddu'r Gronfa Gofal Integredig sy'n cael ei rheoli drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan fuddsoddi yn uniongyrchol mewn gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, ariannu cynlluniau atal ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned, a buddsoddi mewn technoleg ddigidol. Mae cyllid craidd y GIG yn cefnogi codiadau cyflog i staff gwerthfawr, ac yn sicrhau bod twf costau'r GIG a'r galw arno, fel y nodwyd gan y Nuffield Trust, yn cael ei ariannu'n briodol.

Yn ogystal â hyn, mae £50 miliwn pellach yn cael ei ddyrannu eleni yn y Gronfa Trawsnewid, gan fuddsoddi mewn modelau gofal newydd arloesol sydd â'r potensial i ddatblygu i fod yn fodelau a gaiff eu mabwysiadu yn gyffredinol yn y sector iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae manteision y buddsoddiad ychwanegol hwn yn amlwg yn y cynnydd a wneir wrth ddatblygu cynlluniau'r GIG. Ar 27 Mawrth, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod saith Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'u

cymeradwyo, ar gyfer y cyfnod 2019 i 2022. Yn ogystal â'r chwe chorff y cymeradwywyd eu cynlluniau yn 2018-19, mae hyn yn awr yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sydd yn awr yn cynllunio i fantoli'r cyfrifon dros y cyfnod o dair blynedd.

Ein huchelgais ar gyfer 2019-20 yw mai dim ond dau o sefydliadau'r GIG – Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda – fydd mewn diffyg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi uchafswm diffyg a ganiateir i'r ddau sefydliad i sicrhau gwelliant yn erbyn alldro 2018-19 a gwell sefydlogrwydd ariannol, ac mae'n rhoi her a chymorth drwy'r Uned Gyflawni Ariannol i gyflawni gwelliannau mewn cynllunio ariannol a fframweithiau cyflawni. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn parhau i fod yn risg, a byddant yn gweithio i gyflawni alldro cytbwys drwy gynllun gweithredu blynyddol ar gyfer 2019-20. Bydd diffyg gweddilliol y GIG yn 2019-20 yn cael ei reoli o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac rydym yn disgwyl y bydd pob diffyg wedi'i ddileu erbyn 2020-21.

EFFEITHLONRWYDD A GWERTH

Cyflawnodd sefydliadau GIG Cymru £158 miliwn o arbedion yn 2018-19, fel sydd wedi'i nodi yn y tabl isod. Mae cyfran yr arbedion cylchol wedi cynyddu o 71% yn 2017/18 i 79% yn 2018/19.

	Arbedion 2018-19 **£000**		Cylchol **£000**	Untro **£000**
Abertawe Bro Morgannwg	12,624		9,550	3,075
Aneurin Bevan	28,090		17,802	10,288
Betsi Cadwaladr	37,305		34,891	2,414
Caerdydd a'r Fro	25,636		17,377	8,259
Cwm Taf	12,876		12,876	0
Hywel Dda	26,568		21,642	4,926
Powys	3,011		2,681	330
Iechyd Cyhoeddus Cymru	2,198		2,009	189
Felindre	5,711		2,110	3,601
Ambiwlans Cymru	4,331		4,331	0
GIG Cymru	**158,351**		**125,269**	**33,082**

Mae datblygu Uned Gyflawni Ariannol wedi galluogi rhoi mwy o bwyslais ar yr agenda Effeithlonrwydd a Gwerth a ffocws y Grŵp Effeithlonrwydd Gwerth Gofal Iechyd a Gwella Cenedlaethol drwy ddefnyddio'r Fframwaith Effeithlonrwydd Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar adnabod amrywiaeth a chyfleoedd i wella mewn pedwar maes allweddol:

- Ar sail iechyd y boblogaeth i lywio cyfleoedd effeithlonrwydd y gellir eu dyrannu.
- Ar sail cynhyrchiant ac effeithlonrwydd technegol i amlinellu'r cyfleoedd ar gyfer gwelliant yn erbyn cymheiriaid.
- Ar sail system gyfan gan ystyried alinio cost a chanlyniadau o safbwynt Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth
- Cymharu cynlluniau arbed a meincnodau pwrpasol eraill yn y gwahanol sefydliadau i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant pellach a rhoi arferion gorau ar waith yn y system gyfan.

Yn gynyddol, mae'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefydliadau i ddatblygu cynlluniau lleol a hefyd i ganiatáu ffocws cenedlaethol ar feysydd allweddol o welliannau posibl i alluogi dull system gyfan a disgwyliadau yn y meysydd hynny. Mae cyfres gynhwysfawr o ddata ar gael yn awr gyda rhaglen barhaus o ddiweddariadau a datblygiadau yn seiliedig ar anghenion y system. Mae enghreifftiau o'r cynnyrch allweddol a ddatblygwyd yn 2018/19 yn cynnwys:

- Cwblhau Atlas Amrywio Gwasanaethau Cardiofasgwlaidd
- Gweithio gyda Chyfarwyddwyr Nyrsio ar amrywiad Nyrsio ar Wardiau
- Datblygu safbwynt clir o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ar fesurau cynhyrchiant allweddol yn erbyn perfformiad cymheiriaid yng Nghymru a meincnodau cymharol yn Lloegr
- Datblygu cyfres o gyfleoedd gwella yn ymwneud â meddyginiaeth gyda'r Prif Swyddog Fferyllol a'r Prif Fferyllwyr.
- Parhau i ddatblygu cyfleoedd yn ymwneud â chaffael
- Meincnodi pwrpasol yn seiliedig ar wasanaethau fel iechyd meddwl, a gwasanaethau ystadau a chyfleusterau yn GIG Cymru.
- Datblygu adroddiadau pwrpasol yn ôl sefydliad gan ffynonellau deallusrwydd allweddol fel Rhwydwaith Meincnodi'r GIG, rhwydwaith dros y DU gyfan y mae sefydliadau GIG Cymru yn gyfranogwyr ohono.

Mae'r Grŵp Effeithlonrwydd Gwerth Gofal Iechyd a Gwella Cenedlaethol hefyd wedi cael allbwn Dangosfwrdd Canlyniadau Canser yr Ysgyfaint a ddatblygwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru dan arweiniad yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol dros Ofal Iechyd Seiliedig ar Werth. Bydd y dangosfwrdd hwn ac eraill yn cael eu datblygu gyda chymorth y Cynllun Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth fel rhan o'r cynlluniau i weithredu dull a safbwyntiau cenedlaethol ar ganlyniadau ar y raddfa briodol ac yn gyflym.

Mae'r uchod yn disgrifio'r system a'r cyfraniad grŵp cymheiriaid i ddatblygu asesiad wedi'i gydlynu o amrywiadau a chyfleoedd i gyflawni gwelliannau i helpu i fynd i'r afael â heriau a ddaw i'r amlwg a chyflawni gwelliant ariannol ac i wasanaethau. Mae effaith hyn yn cynnwys:

- Datblygu cynlluniau lleol penodol i sefydliadau sy'n ymateb i feysydd amrywiad fel y nodwyd uchod ac sydd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau ariannol 2019/20

Parhau i wneud y gorau o gyfleoedd ynghylch meddyginiaethau biodebyg drwy ddull sydd wedi'i gefnogi gan y Grŵp Effeithlonrwydd Gwerth Gofal Iechyd a Gwella Cenedlaethol a'i arwain gan grŵp cymheiriaid prif fferyllwyr y GIG. Mae'r dull hwn wedi datblygu dau gyfle ariannol drwy symud i ffwrdd o'r dull gwreiddiol i gynnyrch biodebyg, a negodi pris gostyngol gyda'r darparwr gwreiddiol. Mae'r ymyriadau hyn wedi cynhyrchu gostyngiad cylchol o £6.538 miliwn mewn gwariant yn 2018/19, gyda chyfle am ostyngiad o fwy na £5 miliwn wedi'i ragweld ar gyfer 2019/20.

YR UNED GYFLAWNI ARIANNOL

Sefydlwyd yr Uned Gyflawni Ariannol ym mis Ionawr 2018 drwy benodi Cyfarwyddwr yr Uned, ac yn ystod 2018/19 mae'r Uned wedi cwblhau'r broses o recriwtio a sefydlu. Mae'r Uned yn awr wedi'i sefydlu yn gyfan gwbl fel un o swyddogaethau GIG Cymru ac mae wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i welliant perfformiad ariannol y system yn 2018/19.

Pwrpas yr Uned yw gwella capasiti a gallu yn y system i sicrhau'r canlynol:

- Cefnogi a herio perfformiad ariannol sefydliadol holl sefydliadau GIG Cymru, sy'n cynnwys monitro a rheoli risgiau ariannol a chefnogi'r sefydliadau sydd ar lefel uwchgyfeirio uwch dan fframwaith uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru.

- Ysgogi safonau gwelliant mewn rheolaeth ariannol yn GIG Cymru drwy ddefnyddio arferion gorau a thystiolaeth.

- Cefnogi datblygu gwaith Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Ganlyniadau gyda sefydliadau GIG Cymru ac Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol.

- Datblygu deallusrwydd a chipolwg ariannol yn y system gyfan yn GIG Cymru, gan wneud y gorau o'r defnydd o feincnodi a thynnu sylw at gyfleoedd i wella. Mae hyn yn cynnwys datblygu ac ymwreiddio Fframwaith Effeithlonrwydd Cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru a chefnogi'r Grŵp Effeithlonrwydd Gwerth Gofal Iechyd a Gwella Cenedlaethol sy'n cael ei gadeirio gan Dr Andrew Goodall

Wrth ddatblygu a chyflawni yn erbyn yr amcanion hyn yn 2018/19, mae'r uned wedi cyflawni nifer o allbynnau i gefnogi gwelliant yn y cyd-destun hwn. Dyma rai enghreifftiau:

- Adolygiad o ddulliau arfer gorau o ran asesu risg a chyflawni arbedion ariannol, sydd wedi arwain at ddatblygu dull safonol ar gyfer GIG Cymru, sydd wedi'i gynnwys yn y datganiadau monitro misol ar gyfer pob sefydliad o 1 Ebrill 2019.

- Datblygu amlinelliad o brosiectau gwella ariannol i'r dyfodol i godi safonau rheolaeth ariannol gyda ffocws ar welliant parhaus. Y meysydd blaenoriaeth uniongyrchol yw gweithio gyda'r Academi Gyllid ar ganllawiau arferion gorau ar gyfer Rhagolygon Ariannol GIG Cymru.

- Cefnogi Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol i ddatblygu a dadansoddi data amrywiad anawdurdodedig, gan gynnwys amrywiad cost a chefnogi atebion ar gyfer gwelliant gan gynnwys mewn gwasanaethau Clefyd Anadlol a Lymffoedema.

- Cefnogi'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth i ddatblygu'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer darparu system o welliannau drwy'r dull seiliedig ar werth. Mae hyn yn cynnwys darparu ffocws penodol ar ddatblygu data cost a chanlyniadau integredig uwch, a datblygu capasiti a gallu yn y tîm i gefnogi Byrddau Iechyd i ddatblygu cynlluniau lleol. Mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogi datblygiad Costau Seiliedig ar Weithgaredd wedi'i Gymell gan Amser (TDABC) yn GIG Cymru mewn meysydd penodol fel Llwybr Triniaeth y Pen-glin.

- Datblygu gwybodaeth yn ymwneud â chostau a meincnodi yn GIG Cymru ac amlinellu cynlluniau ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o holl wybodaeth Costau Lefel Cleifion Cymru Gyfan fel rhan o'r rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol.

- Darparu cefnogaeth a her uniongyrchol i sefydliadau unigol sydd ar lefel uwchgyfeirio uwch dan fframwaith uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogi a herio gwelliannau ariannol Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Abertawe Bro Morgannwg, a Hywel Dda.

- Yn ystod y misoedd diwethaf, mae wedi cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y camau comisiynu, trosolwg a chyflawni, wrth iddo gomisiynu cymorth ariannol annibynnol wrth ddatblygu cynllun ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019/20. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r broses a'i herio i sicrhau bod y cynllun ariannol yn gadarn.

- Datblygu gwell lefel o asesiadau, adolygiadau, craffu a sicrwydd o gynlluniau ariannol 2019/20 ar gyfer bob sefydliad fel rhan o broses gymeradwyo'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

DYRANIAD ADNODDAU'R GIG

Argymhellodd y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn cwblhau ei adolygiad o'r fformiwla cyllid ar gyfer byrddau iechyd i sicrhau bod amrywiadau mewn lefelau cyllid yn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn anghenion iechyd y boblogaeth a phenderfynyddion eraill costau gofal iechyd yn briodol. Rhoddwyd diweddariad ar y broses yn 2018, gan gadarnhau bod cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer Cam 2 yr Adolygiad, ac adeiladu ar arbenigedd a gwersi a ddysgwyd o Gam 1. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Grŵp Cynghori Technegol i ystyried canfyddiadau'r adolygiad seiliedig ar sero ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, dulliau fformiwla cyllid mewn gwledydd cymharol, fel Seland Newydd, yr Alban a Lloegr, a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2019, mae'r Grŵp Cynghori Technegol, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan y Prif Swyddog Meddygol a Chyfarwyddwr Cyllid y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu fformiwla seiliedig ar anghenion y boblogaeth i gefnogi dosbarthu'r dyraniadau Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd, Cymunedol a Phresgripsiynu yn ôl disgresiwn yn deg yn 2020-21.

Yn dilyn prawf lefel uchel llwyddiannus fformiwla Dyrannu Adnoddau yr Alban, mae'r Grŵp wedi bod yn datblygu a phrofi'r fformiwla, ac elfennau cydrannau'r fformiwla, mewn manylder. Mae'r fformiwla sy'n cael ei ddatblygu yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw ac yn fodiwlar, ac yn seiliedig ar wybodaeth yn ymwneud â'r boblogaeth, anghenion a chyllid, sydd ar gael, yn fanwl gywir ac yn gyson. Mae'r fformiwla wedi'i bwysoli, sy'n berthnasol i ddyraniad twf Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd, Cymunedol a Phresgripsiynu yn ôl disgresiwn, yn seiliedig ar gydrannau'r rhaglenni gofal:

- Gwasanaethau Gofal Iechyd Acíwt (72.0%)
- Gwasanaethau Gofal Iechyd Cymunedol (13.5%)
- Gwasanaethau Mamolaeth (3.3%)
- Meddygon Teulu sy'n Presgripsiynu (11.1%)

Yna mae pob cydran yn cynnwys:

- Poblogaeth - prif gydran y fformiwla
- Pwysoli demograffig - pwysoli oedran/rhyw sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth cost yn ôl oedran a rhyw
- Anghenion ychwanegol - y ffactorau sy'n rhagweld yr angen am ofal iechyd yn ogystal ag oedran a rhyw (ee morbidrwydd uwch)
- Costau dros ben na ellir eu hosgoi - er enghraifft, costau cyflenwi gofal iechyd mewn ardaloedd anghysbell a gwledig

Gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r cydrannau Acíwt, Mamolaeth a Meddygon Teulu sy'n Presgripsiynu, ac mae gwaith pellach wedi'i wneud i gwblhau'r gwaith ar y

Gwasanaethau Gofal Iechyd Cymunedol. Mae'r gwaith sy'n weddill yn ymwneud ag anghenion ychwanegol a ffactorau costau uwch na ellir eu hosgoi. Nododd adroddiad cynharach y Nuffield Trust ar "Effaith Natur Wledig ar Gostau Darparu Gofal Iechyd" bod meintioli'r costau dros ben yn broblemus a bod tystiolaeth ymchwil ar hyn yn gymysg. Bydd elfen gymunedol y gwaith yn cael ei gwblhau yn y ddau fis nesaf.

Erbyn haf 2019, bydd y Grŵp wedi datblygu, profi ac ymgysylltu ynglŷn â fformiwla pwysoli newydd yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth i ddosbarthu dyraniad twf Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Phresgripsiynu yn ôl disgresiwn yn 2020-21. Manylir ar hyn yng nghynlluniau gwariant y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn 2020-21 ac a luniwyd fel rhan o Gyllideb Llywodraeth Cymru 2020-21.

Yn dilyn cwblhau'r flaenoriaeth uniongyrchol am fformiwla i ddosbarthu dyraniad twf yn 2020-21, bydd y grŵp yn parhau gyda'r rhaglen Adolygu Dyraniad Adnoddau, gan gynnwys pellter o'r asesiad targed, gwerthuso'r posibilrwydd o ddefnyddio dyraniadau eraill, er enghraifft dyraniadau gofal sylfaenol a dyraniadau wedi'u neilltuo, yn ogystal â defnyddio fformiwla i gefnogi'r amcan strategol allweddol i gysoni adnoddau â'r rhaglen gofal iechyd seiliedig ar werth gan geisio atal problemau a thrin yn gynharach.

STAFFIO DRWY ASIANTAETHAU

Cyflwyniad

Mae defnyddio rhywfaint o gapasiti staffio dros dro yn y GIG yn hanfodol i reoli darpariaeth gwasanaethau diogel ac effeithiol a gallai, er enghraifft, fod yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaeth yn ystod absenoldeb oherwydd salwch, cyflenwi dros dro yn ystod adegau pan fydd trosiant staff, neu i ddarparu capasiti ychwanegol yn ystod yr adegau pan fydd y galw mwyaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig eu defnyddio ar sail tymor byr yn unig, ac rydym yn parhau i helpu i gefnogi'r GIG i sicrhau atebion tymor hir i fylchau yn y gweithlu er mwyn sicrhau parhad ac ansawdd y ddarpariaeth gofal iechyd.

Dechreuodd y defnydd o staff dros dro gynyddu'n gyflym ar ôl 2013 drwy'r DU i gyd mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau, cystadleuaeth am niferoedd cyfyngedig o staff gofal iechyd drwy'r DU a chynnydd yn symudedd y gweithlu drwy'r byd. Arweiniodd y duedd hon at gynnydd amlwg yn y gwariant ar staff dros dro yng Nghymru rhwng 2012-13 a 2016-17. Mewn ymateb i'r duedd hon, cyflwynodd Llywodraeth Cymru, ar y cyd a sefydliadau GIG Cymru, fframwaith rheoli cenedlaethol a oedd â'r bwriad o rwystro'r cynnydd cyflym mewn gwariant.

Law yn llaw â hynny, rydym hefyd yn rhoi rhaglen gydlynol o gamau gweithredu strategol ar waith i fynd i'r afael a'r rhesymau gwaelodol dros ddefnyddio staff dros dro yn y tymor canolig. Bydd angen mynd i'r afael â hynny os ydym am lwyddo i sicrhau gostyngiad cynaliadwy o ran defnydd a gwariant. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen dull gweithredu mwy amlweddog, felly mae'n debygol y bydd effaith y gwaith hwn yn cymryd mwy o amser i ymddangos yn y proffiliau ariannol.

Cefndir

Mae patrwm y gwario yng Nghymru ers 2014-15 ar gyfer y prif grwpiau staffio i'w weld yn y tabl isod.

	Gwariant Asiantaeth/Locwm (premiwm)				
	Meddygol a Deintyddol £000's	**Nyrsio a Bydwreig. £000's**	**Staffio Arall Dros Dro £000's**	**Cyfanswm £000's**	**Fel % o'r Cyfanswm Cyflogau %**
Gwariant blynyddol 2014-15	40,956	28,720	18,110	**87,787**	
Gwariant blynyddol 2015-16	62,057	45,903	27,257	**135,218**	
Gwariant blynyddol 2016-17	77,348	53,846	33,163	**164,358**	**4.7%**
Gwariant blynyddol 2017-18	60,033	51,431	24,259	**135,724**	**3.7%**
Gwariant blynyddol 2018-19	54,622	65,440	23,577	**143,640**	**3.8%**
Gwariant blynyddol 2019-20	56,430	70,883	23,596	**150,909**	**3.8%**

Er y gwelwyd lleihad parhaus mewn gwariant ar staff Locwm Meddygol yn dilyn cyflwyno'r fframwaith rheoli, bu cynnydd yn y gwariant ar nyrsys asiantaeth er gwaethaf y gydymffurfiaeth o 96% â'r defnydd a wneir ohonynt drwy Gontract Fframwaith Cymru Gyfan, sy'n cynnig gwell gwerth am arian na chomisiynu 'y tu allan i gontract'. Mae rhesymau amrywiol am y cynnydd yn y defnydd o staff nyrsio, ond gellir eu priodoli i'r cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau GIG Cymru (yn dilyn lefelau gweithgarwch na welwyd mo'u tebyg mewn adrannau brys yn ystod misoedd y gaeaf o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol) a chyflwyno blwyddyn lawn gyntaf gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) sydd, yn ogystal â gosod gofynion penodol ar staff nyrsio mewn wardiau meddygol a llawfeddygol, wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am lefelau staffio priodol ar draws pob gwasanaeth.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gynllunio fframwaith rheoli ar gyfer gwario ar staff asiantaeth a locwm, gan gynnwys cynyddu'r craffu sy'n digwydd ar lefel Bwrdd, lleihau'r defnydd ohonynt a gwella gwerth am arian drwy gapio cyfraddau a thrwy gaffael yn fwy effeithiol. Cafodd y fframwaith rheoli newydd ar gyfer staff meddygol ei gyhoeddi yng Nghylchlythyr Iechyd WHC/2017/042 'Rhoi sylw i effaith defnydd GIG Cymru o staff Asiantaeth a Locwm Meddygol' a ddaeth i

rym ym mis Tachwedd 2017. Cyflwynwyd Contract Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Nyrsys Asiantaeth ym mis Ebrill 2017 ac roedd hwn wedi'i gynllunio i sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion maint.

Ochr yn ochr â rhoi'r Fframwaith Rheoli newydd ar waith, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru astudiaeth ar y gwariant ar staff Asiantaethau Meddygol gan GIG Cymru. Arweiniodd hyn at adroddiad y Swyddfa Archwilio ar Wariant GIG Cymru ar Staff Asiantaethau Meddygol, a gyhoeddwyd fis Ionawr 2019, lle gwnaed dau brif arsylwad sy'n sail i reoli gwariant asiantaeth:

- Er mwyn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn sydd wrth wraidd gwariant asiantaeth, mae angen data cyson a chymaradwy ar lefel Cymru gyfan, gan gynnwys:
    - y gallu i gael gafael ar, a rhannu, data cyson a chymaradwy sy'n cael ei gadw gan gyrff unigol y GIG ar lefel Cymru gyfan;
    - y gallu i asesu gwariant asiantaeth a data defnydd yng nghyd-destun costau staffio dros dro eraill.
- Er mwyn sicrhau bod prosiectau yn y dyfodol i reoli gwariant ar staff dros dro a gwariant staff dros dro arall yn cael arweiniad cryf a'r gallu i ysgogi newid mewn modd amserol.

Camau gweithredu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i reoli defnydd a gwariant

Mewn ymateb i'r lefelau gwariant uchel parhaus, a chan ystyried canfyddiadau'r Swyddfa Archwilio, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau drwy'r themâu canlynol er mwyn cynnal a gwella rheolaeth a lleihau gwariant:

- Arweinyddiaeth genedlaethol well a chasglu data'n well;
- Gwella defnydd effeithiol o'r gweithlu;
- Gwella cynllunio'r gweithlu er mwyn cefnogi'r cyfeiriad strategol a nodir yn *Cymru Iachach.*

Arweinyddiaeth Genedlaethol Well a gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Swyddfa Archwilio, sefydlwyd Grŵp Llywio Strategol GIG Cymru ar Ddefnyddio'r Gweithlu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglen waith sydd wedi'i hanelu at y defnydd mwyaf effeithiol o'r gweithlu, drwy ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni blaenoriaethau, meithrin capasiti, rhannu arfer gorau a datblygu datrysiadau 'Unwaith i Gymru' fel y bo'n briodol. Bydd hyn hefyd yn darparu'r arweinyddiaeth genedlaethol well a argymhellwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn hanesyddol mae'r data a gasglwyd ar asiantaeth a staff locwm yn seiliedig ar wariant ariannol. Er bod hyn yn dangos gwariant cynyddol nid oedd yn ein galluogi i ddeall y defnydd o'r gweithlu oedd yn sail iddo. Mae cyflwyno'r fframwaith rheoli newydd wedi dangos, fodd bynnag, fod gwybodaeth am y gwariant hwn yn gyfyngedig ac nad yw'n cael ei gasglu mewn ffordd gyson ar draws Cymru, gan olygu na fyddai dadansoddiad neu feincnodi cenedlaethol manwl yn gadarn. O ganlyniad, rydym bellach wedi cyflwyno protocol casglu data diwygiedig drwy Grŵp Effeithlonrwydd y Gweithlu Meddygol i sefydlu set data cyson ar draws Cymru ar gyfer staff meddygol dros dro. Cyflwynwyd y newidiadau hyn ar ddiwedd mis Mehefin 2019 ac fe'u hadeiladwyd ar y gofynion casglu data a gyflwynwyd o ganlyniad i WHC/2017/042 ac arsylwadau'r Swyddfa Archwilio.

Defnyddio'r gweithlu'n effeithlon

Mae nifer o ffrydiau gwaith wedi'u datblygu i helpu i ddefnyddio'r gweithlu'n fwy effeithiol. Byddai hynny yn ei dro yn mynd i'r afael a'r achosion gwaelodol sy'n arwain at fwy o ddefnydd o staff asiantaeth.

- ***Rheoli presenoldeb*** - Datblygwyd Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith i Gymru Gyfan, mewn partneriaeth gymdeithasol gyda chyflogwyr ac undebau yn y gweithle. Mae hwn yn canolbwyntio'n fwy ar rwystro achosion absenoldebau o'r gwaith, y gellir eu hosgoi, a sefydlu'r cymorth a fydd yn galluogi staff i aros yn y gwaith (neu i ddychwelyd i'r gwaith).
- ***Rheoli rota*** – Mewn trafodaethau gyda sefydliadau iechyd, tynnwyd sylw at ystod o feysydd gwaith lle gallai gwell gwybodaeth o arferion effeithiol gan y staff sy'n rheoli'r gwariant ar staff asiantaeth a locwm arwain at well gwerth am arian a gwell defnydd o staff. Mae potensial mawr ar gyfer e-amserlennu drwy Gymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar wella effeithlonrwydd a'r cyfle i ddefnyddio staff yn fwy hyblyg yn lleol ac yn genedlaethol.
- ***Banc Gweithlu Cydweithredol -*** Mae potensial i leihau cost defnyddio staff dros dro drwy ddatblygu banc staff cydweithredol i GIG Cymru er mwyn galluogi defnydd mwy hyblyg o staff ledled Cymru. Mae nifer o brosiectau ar y gweill a fydd yn helpu i archwilio pa mor ymarferol yw'r syniad hwn ac i greu amodau i alluogi iddo ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys:
    - *Gwirio DBS* - Mae Fforwm Partneriaeth GIG Cymru yn ddiweddar wedi bod yn ymwneud ag opsiynau i'w gwneud yn orfodol defnyddio Gwasanaeth Diweddaru DBS, a fyddai'n arwain at arbediad cost hirdymor ystyrlon dros gyfnod o amser, yn lleihau amseroedd recriwtio, ac yn sail i ddatblygu Banc i Gymru Gyfan gan y byddai gwiriadau DBS yn drosglwyddadwy ar draws pob sefydliad.
    - *Cynllun peilot banc nyrsys* - Mae prosiect peilot ar y gweill i sefydlu model "banc cydweithredol" a fyddai'n galluogi nyrsys i gael sifftiau ar draws ffiniau Byrddau Iechyd. I ddechrau mae'r cynllun peilot yn

gyfyngedig i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Bae Abertawe i brofi'r cysyniad a bwriedir ei roi ar waith yn ystod haf 2019.

- ***Prosiect recriwtio o'r dechrau i'r diwedd*** - Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru hefyd wedi datblygu'r prosiect hwn i leihau'r amser a gymerir i gwblhau'r broses recriwtio, ar gyfer swyddi'r Agenda ar gyfer Newid, i wella'r profiad i ymgeiswyr sydd am ymuno neu symud rolau yn y GIG yng Nghymru ac i leihau'r angen am staff dros dro yn ystod y broses recriwtio. Ym mis Mawrth 2014, yr amser cyfartalog i gyflogi oedd 102 diwrnod, yn dilyn rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith mae hyn wedi llwyddo i leihau'r amser i gyflogi i 67 diwrnod (Mai 19).

Gwella'r broses o gynllunio'r gweithlu

Yn unol ag amcanion *Cymru Iachach* a'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth gweithlu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu nifer o ffrydiau gwaith i wella'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw gweithlu'r GIG yn y dyfodol.

- **Buddsoddi mewn Hyfforddiant ac Addysg –** Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn cyllid i gefnogi addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd yng Nghymru gyda £114m yn cael ei fuddsoddi yn 2019/20 (cynnydd o dros £7m ers 2018/19). Dyma'r lefel uchaf erioed o gyllid a bydd yn cefnogi'r nifer uchaf erioed o gyfleoedd hyfforddi yng Nghymru a fydd yn llifo drwodd i gyflenwad cynyddol o weithwyr proffesiynol gofal iechyd i weithio yng Nghymru.

- **Bwrsariaethau -** Dros y 10 mlynedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi mewn cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru a fydd ar gael i unigolion sy'n dewis astudio rhaglen gymwys sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru sy'n dechrau hyd at y flwyddyn academaidd 2020/2021. Nod hyn yw sicrhau bod hyfforddeion yn ymrwymo ymlaen llaw i weithio yng Nghymru am hyd at ddwy flynedd ar ôl cymhwyso ac felly sicrhau bod ein buddsoddiad mewn hyfforddiant yn arwain at gyflenwad cynyddol o ran y gweithlu i lenwi swyddi gwag yng Nghymru.

- **Prosiect Symleiddio Nyrsio -** Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi datblygu gwasanaeth symlach sy'n paru nyrsys sydd newydd gymhwyso o'r brifysgol â swyddi addas yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod nyrsys yn osgoi gorfod gwneud nifer o geisiadau am swyddi, a'n bod yn gwneud y mwyaf o'u penodiad i swyddi yng Nghymru mor gyflym â phosibl.

- **Hyfforddi:Gweithio:Byw -** Ers 2016, mae'r rhaglen hon wedi ceisio lleihau swyddi gwag trwy hyrwyddo gyrfaoedd GIG Cymru a thynnu sylw at y

manteision o hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru. Mae'r ymgyrch yn cynnwys ymgyrch ddigidol ac ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol, presenoldeb mewn arddangosfeydd a chynadleddau proffil uchel dan arweiniad y proffesiwn a rhai cymhellion wedi'u targedu i ddenu pobl i rolau sydd wedi bod yn anodd eu llenwi. Mae'r camau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau llenwi hyfforddiant arbenigol a byddwn yn ceisio adeiladu ar y llwyddiant hwn er mwyn gwella'r lefelau recriwtio.

- **Arbenigedd ac Arbenigwyr Cyswllt (SAS) -** Mae gwybodaeth a gesglir o ganlyniad i'r fframwaith rheoli newydd yn dangos bod rotâu yng Nghymru yn dibynnu'n fawr ar ddefnyddio meddygon SAS ac rydym yn ystyried ffyrdd o wella'u telerau a'u hamodau fel staff parhaol er mwyn gwneud y llwybr asiantaeth a locwm yn llai deniadol.

- **Argymhellion corff adolygu cyflogau annibynnol -** Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fuddsoddi yng nghyflog ac amodau'r gweithlu i gydnabod gwerth ac ymroddiad ein staff GIG ac i gefnogi recriwtio a chadw staff. Derbyniwyd argymhellion cyflog y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion yn llawn o fis Ebrill 2018, yn wahanol i Loegr, ac rydym wedi bod yn gweithredu'r cytundeb cyflog tair blynedd Agenda ar gyfer Newid ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2020.

Crynodeb

Wrth i'r galw am wasanaethau'r GIG gynyddu am y rhesymau a nodwyd yn adroddiadau Nuffield yn 2014 a'r Sefydliad Iechyd yn 2016, mae'n anorfod y bydd gofyn inni barhau i ddibynnu rhywfaint ar staff dros dro er mwyn sicrhau bod gwasanaethau diogel o ansawdd da yn cael eu darparu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd gost-effeithiol sy'n cael ei rheoli. Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ehangach ar gyfer y gweithlu i ategu *Cymru Iachach* yn darparu cyfeiriad strategol yn awr i fynd i'r afael ag anghenion recriwtio a chadw'r GIG yn y dyfodol, gan gynnwys y defnydd o staff dros dro lle bo hynny'n briodol.